OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1497

# Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015

**Cais am ddynodiad yn sefydliad**

**2.**—(1) Rhaid i gais gan ddarparwr addysg uwch(**1**) ("yr ymgeisydd") am ddynodiad o dan adran 3(1) o Ddeddf 2015 fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys—

(a) enw a phrif gyfeiriad yr ymgeisydd;

(b) unrhyw enwau eraill y mae'r ymgeisydd yn gweithredu odanynt;

(c) gwybodaeth, gan gynnwys y materion hynny a bennir ym mharagraffau (2) a (3), sy'n ymwneud â statws elusennol yr ymgeisydd a'i ddarpariaeth o addysg uwch yng Nghymru.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a geir mewn cais gynnwys naill ai—

(a) rhif cofrestru elusen yr ymgeisydd ac enw a chyfeiriad rheoleiddiwr elusennau y mae'r ymgeisydd wedi ei gofrestru ag ef; neu

(b) os nad yw'r ymgeisydd wedi ei gofrestru â rheoleiddiwr elusennau, y rheswm pam nad yw'n ofynnol iddo gofrestru â rheoleiddiwr elusennau.

(3) Rhaid i'r wybodaeth a geir mewn cais hefyd gynnwys—

(a) disgrifiad o'r addysg uwch a ddarperir gan yr ymgeisydd yng Nghymru;

(b) disgrifiad o'r dyfarniad y caniateir iddo gael ei roi i berson o ganlyniad i'r addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan yr ymgeisydd;

(c) nifer y personau yng Nghymru sy'n ymgymryd â'r addysg uwch honno ar ddyddiad y cais;

(d) yr ardal yng Nghymru lle y darperir addysg uwch;

(e) cyfeiriad unrhyw wefan a gynhelir gan yr ymgeisydd sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth o addysg uwch yng Nghymru gan yr ymgeisydd hwnnw.

(**1**) Diffinnir addysg uwch yn adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.